Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru: Llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal

**Dr Helen Hodges**

Medi 2020

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gynorthwyo gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu a defnyddio tystiolaeth annibynnol gadarn ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i syntheseiddio a chrynhoi tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a chanfod bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n gwneud y canlynol:

- Helpu Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio a gwella polisi, yn ogystal â chael gafael ar dystiolaeth ac arbenigedd o'r fath a'i defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gael gafael ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol, yn ogystal â chynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth o'r fath; a
- Defnyddio'i gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o'r ffordd y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i wella gallu ymchwilwyr i wneud gwaith ymchwil effeithiol sy'n berthnasol i bolisi.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r Brifysgol yn sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys

**Crynodeb** 4

**Cyflwyniad** 5

**Llifoedd i mewn ac allan o'r System Gofal: Fframwaith Cysyniadol** 6

Beth wyddom ni am y niferoedd sy'n dod i mewn i'r system gofal? 7

Beth oedd y darlun yn 2018-19? 9

Sut mae'r cydbwysedd rhwng y llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal wedi newid dros amser ledled Cymru? 10

A yw'r duedd yr un fath ar draws Cymru? 12

Beth yw'r berthynas rhwng y cydbwysedd a'r newidiadau yng nghyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal yn y blynyddoedd diwethaf? 13

A fu newidiadau yn y 'dulliau' o adael gofal? 17

**Casgliad** 24

**Crynodebau Awdurdodau Lleol** 26

**Atodiad Data** 49

**Cyfeirnodau** 52

# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru ac yn datblygu dadansoddiad blaenorol y Ganolfan o'r ffactorau sy'n effeithio ar amrywiadau yng nghyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Er bod adroddiadau cynharach wedi tueddu i ganolbwyntio ar y niferoedd sy'n dod i ofal, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cydbwysedd rhwng mewn-lifoedd ac all-lifoedd.

- Yn 2018-19, roedd 435 yn fwy yn mynd i ofal nag a oedd yn gadael: O'r 4,505 o benodau a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019, daeth 2,815 i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol. Mae eithrio'r rhain yn awgrymu bod 1,690 o 'ymadawiadau' o'i gymharu â 2,125 yn dechrau yn ystod y flwyddyn.

- O'i gymharu â thueddiadau yng nghyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, mae'n tynnu sylw at y ffaith ei bod yn ymddangos bod y gostyngiad yn nifer yr ymadawiadau – yr 'all-lif' – wedi cael effaith sylweddol ar gynyddu cyfraddau dros y pedair blynedd diwethaf.

- Gan nad yw proffil oedran y rhai sy'n gadael y system gofal yn cael ei gyhoeddi, nid yw'r rhifau sy'n 'mynd allan o ran oed' yn hysbys. Yn yr un modd, gan nad yw ffigurau o bob rhan o'r flwyddyn yn cael eu cyhoeddi, nid yw'r niferoedd sy'n aros mewn gofal yn hysbys.

- Ailuno yw'r rheswm sy'n digwydd amlaf dros gyfnod o ofal yn dod i ben gan gyfrif am 34% o'r holl ymadawiadau yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019 (580 allan o 1,690 a adawodd). Fodd bynnag, mae gostyngiad cyson wedi bod yn nifer y rhai sy'n dychwelyd i fyw gyda rhieni, perthnasau neu bobl eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant ers 2014-15 – gostyngiad o 16%.

- Roedd y niferoedd a oedd yn gadael gofal o ganlyniad i fabwysiadu yn weddol sefydlog rhwng 2002-03 a 2011-12, gan godi i uchafbwynt yn 2014-15 gyda 385 o blant yn cael eu mabwysiadu o ofal. Ers hynny, mae'r niferoedd wedi gostwng i oddeutu 305. Fodd bynnag, maent wedi bod yn sefydlog dros y 3 blynedd diwethaf.

- Mae'r rheini sy'n cael eu mabwysiadu o ofal yn tueddu i fod yn iau ac roedd y rhan fwyaf o'r plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu mabwysiadu yn ystod 2018-29 rhwng 1 a 4 oed (250 allan o 310) gyda dros ddwy ran o dair o'r rhain yn cael eu rhoi mewn gofal cyn eu pen-blwydd cyntaf.

- Yn yr un modd â mabwysiadu ac ailuno, mae nifer yr ymadawiadau o ganlyniad i Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig hefyd wedi bod yn gostwng ers 2014-15, gan ostwng yn gyflymach na'r duedd gyffredinol ar gyfer gadael.

- Er bod meddwl am y garfan plant sy'n derbyn gofal fel system lle mae llif i mewn ac allan yn gallu bod yn or-syml, mae'n dangos nad yw lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal yn ddigonol os ydym am leihau nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

- Mae angen rhoi'r un faint o ffocws ar blant a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn ddiogel ag a roddir ar eu hatal rhag mynd i mewn iddo. Dylai ailuno'n benodol (o ystyried ei gyfran hanesyddol o 'ymadawiadau') fod yn flaenoriaeth allweddol.

# Cyflwyniad

Dyma'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau briffio sy'n darparu cyd-destun ar gyfer rhaglen waith ehangach y Ganolfan yn gysylltiedig â phlant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar lifoedd i mewn ac allan o'r system gofal yng Nghymru ac felly bwriedir iddo wella ein dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag amrywiad yng nghyfraddau awdurdodau lleol plant sy'n derbyn gofal[1] yng Nghymru. O'r herwydd, mae'n ategu'r briff cyntaf a oedd yn canolbwyntio ar ddisgrifio tueddiadau lleol a chenedlaethol drwy ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y pedwar awdurdod lleol sydd wedi gweld gostyngiad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r naw awdurdod lleol sydd wedi gweld tueddiadau i fyny yn y blynyddoedd diwethaf (mae'r manylion i'w gweld yn Nhablau 1 a 2).

Fel gyda dogfennau briffio eraill yn y gyfres hon, mae'n dibynnu ar ffynonellau cyhoeddus sydd ar gael, a gyhoeddir yn flynyddol yn bennaf fel data cyfanredol ar lefel awdurdod lleol. O'r herwydd, mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn ategu'r hyn a gyhoeddwyd gan Stats Cymru a Llywodraeth Cymru yn Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol, 2018-2019.(SFR 106/2019).[2] Yn yr adroddiad cynharach **Ffactorau sy'n Cyfrannu at Gyfraddau Gofal Uwch yng Nghymru**[3] cyflwynwyd dadansoddiad o set ddata PLATO (Ministry of Justice, 2019). Amlygodd hyn, o'i gymharu â Lloegr a'i rhanbarthau cyfansoddol, y bu cyfradd uwch o geisiadau am orchmynion gofal adran 31, a chyfradd trosi uwch yn orchmynion sy'n deillio o hynny yng Nghymru. Gan nad yw'r adnodd hwn wedi'i ddiweddaru, nid yw'r dadansoddiad yn cael ei ailadrodd yma. Yn hytrach, mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar ddata sydd wedi'u cynnwys mewn dau dabl allweddol sydd ar gael ar *Stats Cymru: Plant sy'n dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r angen am ofal* (Stats Wales, 2019d), a *Penodau sy'n dod i ben ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r rheswm dros ddod i ben* (Stats Wales, 2019e).

Yn wahanol i ddata arall a gyhoeddwyd o'r casgliad data plant sy'n derbyn gofal (SSDA903) sy'n rhoi cipolwg o'r sefyllfa ar 31[ain] Mawrth bob blwyddyn, mae'r ddau dabl hyn yn adlewyrchu'r niferoedd ar draws y flwyddyn. Fodd bynnag, wrth ddibynnu ar ddata cyfanredol, nid yw'n bosibl gwerthfawrogi i ba raddau y mae plant wedi cael mwy nag un cofnod mewn gofal dros gyfnod o 12 mis. Nid yw ychwaith yn bosibl dysgu mwy am nodweddion na statws cyfreithiol unrhyw un o'r plant. Mae Cafcass Cymru hefyd yn cyhoeddi data sy'n crynhoi nifer y ceisiadau adran 31 a wneir ar draws Cymru bob mis, a gyflwynir yma.

---

[1] Yn yr adroddiad hwn cyfeirir at 'blant sy'n derbyn gofal' gan fod y fersiwn gryno 'LAC' (looked after child) yn gallu rhoi'r argraff fod y plant yn brin o rywbeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion bu'n angenrheidiol defnyddio'r term 'plant sy'n derbyn gofal' (LAC) gan mai dyma'r term statudol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal wedi'i dalfyrru i Gyfrifiad LAC.

[2] Mae'r canllawiau technegol ar gyfer Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal 2018-19 ar gael yn: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/looked-after-children-census-2018-19-guidance_1.pdf**

[3] Gellir llwytho hwn i lawr oddi ar wefan CPCC: **https://www.wcpp.org.uk/publication/analysis-of-the-factors-contributing-to-the-high-rates-of-care-in-wales/**

# Llifoedd i mewn ac allan o'r System Gofal: Fframwaith Cysyniadol

Mae'r cyfnod o amser pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn cael ei rannu'n "benodau" gofal. Mae pob pennod yn cynrychioli cyfnod o dderbyn gofal o dan yr un statws cyfreithiol ac yn yr un lleoliad. Mae pennod newydd yn cael ei chychwyn:

- Bob tro y mae plentyn yn dechrau derbyn gofal.
- Pan fydd newid yn y cod statws cyfreithiol. Nid oes angen pennod newydd wrth adnewyddu statws cyfreithiol parhaus.
- Pan fydd newid o ran lleoliad. Mae rhai eithriadau penodol i hyn lle gellir ystyried y newid lleoliad yn un dros dro e.e. cyfnodau dros dro yn yr ysbyty ac ar wyliau.

Cofnodir hefyd y rhesymau pam y daeth y bennod i ben. Felly, mae'n bosibl gwahaniaethu rhwng lle mae'r plentyn yn parhau i dderbyn gofal – h.y. lle mae pennod yn dod i ben a lle mae'r bennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod – a lle mae'r gofal yn dod i ben a lle nad yw'r plentyn yn derbyn gofal mwyach.

### Ffigur 1: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal




Mewn system gytbwys, mae'r niferoedd sy'n dod i mewn yn gyfartal â'r rhai sy'n mynd allan. Fodd bynnag, os bydd mwy yn dod i mewn nag sy'n mynd allan, bydd hyn yn gwrthbwyso'r glorian a bydd y niferoedd cyffredinol yn cynyddu. I'r gwrthwyneb, os oes llai yn dod i mewn nag yn mynd allan, bydd hyn yn lleihau'r niferoedd yn y system.

Yng nghyd-destun y system gofal, bydd y rhai sy'n mynd i mewn yn unrhyw flwyddyn benodol o ganlyniad i ddod yn 'blentyn sy'n derbyn gofal' yn ychwanegu at y rhai sydd eisoes yn y system. Heb unrhyw ymyriad (e.e. newid yn statws cyfreithiol y plentyn sy'n golygu nad yw'n derbyn gofal mwyach), mae'r all-lif 'naturiol' yn digwydd o ganlyniad i'r plentyn naill ai'n cyrraedd 18 oed ac felly'n heneiddio allan o'r system ofal neu'n trosglwyddo i wasanaeth oedolion, neu farwolaeth.

Y prif resymau pam fod plentyn yn peidio â derbyn gofal yw ailuno gyda'i deulu naturiol; mabwysiadu; bod yn destun gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig (SGO) neu ryddhau gorchymyn gofal; neu symud i fyw'n annibynnol.

Mae rhai plant a all ddychwelyd i ofal, er enghraifft yn dilyn ymdrechion aflwyddiannus i ddychwelyd i fyw gyda'u teulu. Cafodd y mater hwn o ail-fynediad i ofal ei archwilio gan Elliott (2017). Nododd fod perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng hyd cyfnod cyntaf plentyn o fod yn 'derbyn gofal' a'i debygolrwydd o ddychwelyd am gyfnod arall mewn gofal:

- Mae plentyn yr oedd ei arhosiad cyntaf mewn gofal yn llai na mis yn para 3.5 gwaith yn fwy tebygol o ddychwelyd i ofal na phlentyn yr oedd ei arhosiad cyntaf dros ddwy flynedd.
- Mae plentyn a oedd wedi bod yn 'derbyn gofal' am rhwng 3 a 6 mis dros 2.5 gwaith yn fwy tebygol o ddychwelyd na phlentyn a arhosodd am fwy na dwy flynedd.
- Fodd bynnag, mae hyd arhosiad dros 6 mis yn peidio â bod â pherthynas ystadegol arwyddocaol â'r tebygolrwydd o ddychwelyd i ofal.

Mae'r duedd hon yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r amgylchiadau a arweiniodd at gyflwyno'r mesurau diogelu. Er enghraifft, os yw'r plentyn yn cael ei roi mewn gofal oherwydd rhiant yn camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl neu gam-drin domestig, dylai hyd y cyfnod fod yn ddigon i ganiatáu newid ystyrlon yng ngallu'r rhieni fel ei bod yn ddiogel i'r plentyn ddychwelyd. Felly, byddai angen i'r cyfnod adlewyrchu'r amser mae'n ei gymryd i driniaeth / ymyriadau arwain at ganlyniad cadarnhaol parhaus.

## Beth wyddom ni am y niferoedd sy'n dod i mewn i'r system gofal?

Mae data gan CAFCASS Cymru am nifer y ceisiadau am orchmynion gofal adran 31 yn awgrymu y bu cynnydd trawiadol yn nifer y ceisiadau rhwng 2014-15 a 2016-17. Mae hyn wedi'i gysylltu â'r craffu cynyddol sy'n deillio o bryderon ynghylch camddefnyddio a cham-drin trefniadau adran 20 (adran 76 yng Nghymru). Yn dilyn dau achos allweddol[4], gosododd Syr James Munby, llywydd yr Adran Deulu ar y pryd, ganllawiau clir ynglŷn â sut y dylai gweithwyr cymdeithasol ac awdurdodau lleol ymdrin ag achosion lle cafodd yr unigolyn lety o'i wirfodd – yn enwedig pan oedd hynny'n rhagflaenu achosion gofal – yn ogystal ag

[4] Yn *Re N*, ymosododd Munby ar y ffordd mae trefniadau adran 20 yn cael eu "camddefnyddio a'u cam-drin" ac awgrymodd fod sawl awdurdod lleol wedi bod yn eu defnyddio'n amhriodol yn lle gorchmynion gofal, yn hytrach nag am gyfnodau tymor byr gwirfoddol â phwrpas clir pan oedd angen cymorth wedi'i gynllunio ar deuluoedd. Felly, cyhoeddwyd canllawiau newydd a oedd yn ymdrin ag arfer da. Yn *Re B-S*, amlinellodd Munby sut y dylai ymarferwyr ddefnyddio'r dull sy'n seiliedig ar fantolen wrth ystyried achosion gofal.

achosion gwarchodaeth arbennig. Stevenson (2017) yn mynnu bod hyn wedi ysgogi awdurdodau lleol i ail-archwilio achosion adran 76 a dod â rhai ohonynt i'r llys fel achosion gofal. Gwelwyd y nifer uchaf erioed o geisiadau am orchmynion gofal, sef 1,053 yn 2017-18 ac mae'n gostwng erbyn hyn (Ffigur 3).

### Ffigur 2: Ceisiadau Adran 31, yn ôl Blwyddyn




Ffynhonnell: Cafcass Cymru (2020)

Dylid pwysleisio mai dim ond rhan o'r darlun y mae data Cafcass Cymru yn ei ddarparu – ar sail data ciplun sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2019 (Stats Wales, 2019a):

- Roedd tua 83% o'r plant a oedd yn derbyn gofal ar orchmynion gofal (5,670 allan o 6,875)
- Roedd 8% (555) wedi'u lletya'n wirfoddol dan adran 76
- Roedd gan 9% (600) statws cyfreithiol gwahanol gan gynnwys bod ar orchymyn amddiffyn brys, bod dan orchymyn asesu plant a bod dan warchodaeth yr heddlu mewn llety awdurdod lleol
- Roedd 20 arall ar remand, yn cael eu cadw'n gaeth neu orchymyn gorfodol arall.

Yn nodedig, mae'r niferoedd â statws cyfreithiol arall wedi bod yn codi. Mae hyn yn gyson â thystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid sy'n awgrymu er bod nifer y ceisiadau am orchmynion adran 31 wedi gostwng 16%, bod ceisiadau am orchmynion eraill wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwn.

## Beth oedd y darlun yn 2018-19?

### Ffigur 3: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal, 2018-19

O'r **4,505 o benodau a ddaeth i ben** yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019, **daeth 2,815 i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod canlynol.** Mae hyn yn awgrymu bod 1,690 o 'ymadawiadau' o'i gymharu â 2,125 yn dechrau yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, roedd **435 yn fwy yn dod i mewn i ofal na'r nifer a oedd yn gadael gofal ac felly roedd tuedd ar i fyny.**

**1,690** yn gadael yn ystod y flwyddyn:

- 580 wedi dychwelyd i fyw gyda'r teulu (ailuno)
- 305 wedi'u mabwysiadu
- 200 SGO wedi'u caniatáu
- 190 wedi symud i drefniadau byw'n annibynnol
- 35 wedi trosglwyddo i wasanaethau oedolion
- 10 wedi'u dedfrydu i garchar
- 5 wedi marw
- 5 wedi'u trosglwyddo i ALI eraill




Ffynhonnell: Stats Wales (2019d, 2019c). Sylwer: Gall y llysoedd teulu gyflwyno Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig (SGO) lle mae un neu fwy o unigolion, fel arfer aelodau o'r teulu, yn cael cyfrifoldeb rhiant dros blentyn nad yw'n gallu byw gyda'u rhieni naturiol. O ganlyniad i hyn, mae'r plentyn yn peidio â derbyn gofal. Er bod cyfrifoldeb rhiant yn cael ei roi i warcheidwad arbennig y plentyn, nid oes yn rhaid iddo dorri'r berthynas gyfreithiol â'i rieni naturiol.

Gan nad yw proffil oedran y rhai sy'n mynd i ofal ac yn gadael gofal yn cael ei gyhoeddi, mae'n anodd penderfynu faint o'r rhai sy'n gadael gofal sy'n ymwneud â heneiddio allan. Fodd bynnag, yn gysyniadol, os bydd plentyn yn mynd i ofal pan fydd yn ifanc ac yn aros yn y system gofal nes bydd yn 18 oed, yna bydd carfan graidd sydd eisoes yn y system. Mae'r ffordd y cyhoeddir y data yn golygu nad ydym yn gwybod pa mor fawr yw'r grŵp hwn – dim ond ei fod goruwch y 2,815 y newidiodd eu hamgylchiadau naill ai o ganlyniad i newid statws cyfreithiol a/neu leoliad.

Roedd y gyfran fwyaf o'r 'ymadawiadau' o ganlyniad i ailuno. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, mae dibynnu ar ddata cyfanredol yn golygu nad ydym yn gallu pennu faint o'r rhai sy'n gadael ac yn dechrau sy'n adlewyrchu ail-fynediad i ofal ar ôl i'r broses ailuno chwalu. Dylid nodi nad yw pob un sy'n dod i mewn i ofal eilwaith yn gwneud hynny o ganlyniad i ddychwelyd i fyw gyda rhieni naturiol yn aflwyddiannus. Fel y noda Elliott (2017) , er bod y niferoedd yn fach iawn, gall ail-fynediad i ofal hefyd ddigwydd o ganlyniad i darfu ar fabwysiadu a hefyd tarfu ar orchmynion gwarcheidiaeth arbennig (SGO).

Ystyrir yn gyffredinol mai ymadawiadau sy'n adlewyrchu'r newid i sefyllfa barhaol naill ai gyda'r teulu naturiol neu eraill drwy fabwysiadu neu warcheidiaeth arbennig yw'r mwyaf dymunol gan eu bod yn cynnig sefydlogrwydd i'r plentyn. Mae'r tueddiadau mewn perthynas â phob un o'r dulliau ymadael hyn yn cael eu hystyried yn nes ymlaen yn y papur briffio hwn, ynghyd â'r rhai sy'n ymwneud â phlant sy'n peidio â derbyn gofal o ganlyniad i symud i fyw'n annibynnol.

## Sut mae'r cydbwysedd rhwng y llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal wedi newid dros amser ledled Cymru?

### Ffigur 4: Nifer y rhai sy'n (a) dechrau a (b) gadael y system gofal, yn ôl blwyddyn




Ffynhonnell: Stats Wales (2019d, 2019c). Mae nifer yr ymadawiadau wedi'i bennu drwy ystyried nifer y penodau sy'n dod i ben yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth a thynnu allan y rhai lle daeth y bennod i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf.

Fel y gwelir o Ffigur 4(a), mae tua 2,000 wedi dechrau bob blwyddyn ers 2012 – er, ar ôl cyrraedd uchafbwynt o 2,230 yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017, mae'r nifer wedi gostwng ychydig. Yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019 roedd 2,125 wedi dechrau. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain (65%, 1,395 allan o 2,125) o ganlyniad i gam-drin neu esgeulustod gydag oddeutu un o bob wyth (14%, 305) yn derbyn gofal o ganlyniad i drafferthion teuluol ac un mewn un ar ddeg (9%, 190) o ganlyniad i straen difrifol ar y teulu.

I'r gwrthwyneb, o tua 2007 roedd nifer y rhai a oedd yn gadael y system gofal wedi bod yn cynyddu, gan gyrraedd uchafbwynt yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2015, gyda 2,190 yn gadael. Ers hynny, mae nifer yr ymadawiadau wedi gostwng 23% gyda 1690 yn gadael yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019 (Ffigur 4(b)).

Mae'r cydbwysedd rhwng y rhai sy'n dechrau a'r rhai sy'n gadael yn cael ei grynhoi yn Ffigur 5. Mae'r llinell tuedd yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng y ddau. Yn nodedig, rhwng 1af Ebrill 2013 a 31ain Mawrth 2015 roedd mwy yn gadael nag a oedd yn dechrau, ac o'r herwydd mae'r cydbwysedd yn negyddol. Er nad oes modd cymharu'r ddau fesur yn uniongyrchol gan fod un yn cwmpasu'r flwyddyn gyfan a'r llall yn giplun, mae'n bosibl gweld o Ffigur 6 sut mae'r cydbwysedd negyddol hwn wedi troi'n ostyngiad bychan yn y nifer a'r cyfraddau ar gyfer 31ain Mawrth 2015.

## Ffigur 5: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser ledled Cymru




Ffynhonnell: Stats Wales (2019d, 2019e). Mae nifer yr ymadawiadau wedi'i bennu drwy ystyried nifer y penodau sy'n dod i ben yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth a thynnu allan y rhai lle daeth y bennod i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf. Mae'r niferoedd a gyflwynir yma yr un fath ag yn Ffigur 4(a) a 4(b). Mae'r data sylfaenol i'w gael yn yr Atodiad Data.

## Ffigur 6: Nifer a chyfradd y plant sy'n derbyn gofal ar 31ain Mawrth




Ffynhonnell: Stats Wales (2019b, 2019c)

Ers mis Ebrill 2016, mae mwy wedi dechrau nag wedi gadael gyda data o'r ddwy flynedd diwethaf yn awgrymu bod oddeutu 440 yn fwy wedi dechrau na'r nifer sy'n gadael bob blwyddyn. Mae'r duedd gynyddol hon i'w gweld hefyd yn Ffigur 6. Mae newidiadau ar ffurf ymadawiadau yn cael eu hystyried yn fanylach yn nes ymlaen yn y papur briffio hwn.

## A yw'r duedd yr un fath ar draws Cymru?

Gan fod gan y 22 awdurdod lleol wahaniaethau ym maint eu poblogaeth o blant a'u carfan o blant sy'n derbyn gofal, mae'r cyfraddau dechrau ac ymadael fesul 10,000 o blant wedi cael eu pennu i ystyried y cydbwysedd ar sail data o 2018-19. Mae'r cyfartaledd ar draws Cymru wedi'i gynnwys er gwybodaeth.

### Ffigur 7: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal yn ôl awdurdod lleol yn 2018-19




Ffynhonnell: Stats Wales (2019d, 2019e). Mae nifer yr ymadawiadau wedi'i bennu drwy ystyried nifer y penodau sy'n dod i ben yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth a thynnu allan y rhai lle daeth y bennod i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf. Caiff awdurdodau lleol eu rhestru yn ôl eu cyfradd o blant sy'n derbyn gofal ar 31ain Mawrth 2019 a ddangosir mewn cromfachau. Mae'r data sylfaenol i'w gael yn yr Atodiad Data.

Mae'r 2,125 o ddechreuadau a gofnodwyd yn 2018-19 yn cyfateb i gyfradd o 34 dechreuad am bob 10,000 ac mae'r 1,690 o ymadawiadau yn cyfateb i gyfradd o 27 am bob 10,000. Y cydbwysedd felly yw 7 – fe'i hadlewyrchir yn Ffigur 7 fel diemwnt du. Yn hollbwysig, nid oedd gan yr holl awdurdodau lleol gydbwysedd cadarnhaol h.y. mwy yn dechrau nag yn gadael. Roedd gan Sir Gaerfyrddin, Conwy, Castell-nedd Port Talbot a Blaenau Gwent i gyd gydbwysedd negyddol h.y. roedd llai o blant yn mynd i mewn i'r system ofal nag a adawodd. Y llynedd, cafodd Sir Ddinbych, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yr un nifer o ddechreuwyr ag a oedd o ymadawiadau.

Yn benodol, dau o'r tri awdurdod lleol sydd â'r cyfraddau uchaf o blant sy'n derbyn gofal ar 31ain Mawrth 2019 – Merthyr Tudful a Thorfaen sydd hefyd â'r gwahaniaeth mwyaf yn eu cyfraddau dechrau ac ymadael yn ystod y flwyddyn, gan ychwanegu at eu cyfraddau uchel o blant yn derbyn gofal ar 31ain Mawrth 2018.

## Beth yw'r berthynas rhwng y cydbwysedd a'r newidiadau yng nghyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal yn y blynyddoedd diwethaf?

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r newid a chyfeiriad y trywydd o ran cyfraddau awdurdodau lleol ar gyfer plant mewn gofal ar 31ain Mawrth o'i gymharu â 10, 5 a 3 blynedd yn ôl. Mae cymariaethau hefyd wedi cael eu cynnwys mewn perthynas â'r gyfradd ar 31ain Mawrth 2018.

Yn y papur briffio cyntaf yn y gyfres hon, nodwyd bod pedwar awdurdod lleol wedi gweld gostyngiad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal (Tabl 1), a dau yn benodol – Sir Gaerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot – a oedd wedi gweld gostyngiadau mawr. I'r gwrthwyneb, yr oedd naw awdurdod lleol wedi gweld tuedd at i fyny yn y blynyddoedd diwethaf (Tabl 2). Yn y papur briffio hwn rydym yn edrych ar y tueddiadau dros gyfnod hwy ac rydym wedi ceisio grwpio'r awdurdodau lleol ar sail trywydd eu cyfraddau dros y cyfnod o 10 mlynedd. Er bod y grwpiau'n oddrychol, maent wedi cael eu defnyddio i helpu i ddeall y berthynas rhwng cydbwysedd llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal a'r goblygiadau y mae hyn, i bob golwg, wedi'u cael ar gyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal ar lefel leol.

### Tabl 1: Cyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal – newid net a chyfeiriad y trywydd – Gostyngiad cyson

| | 10 mlynedd (cf. 2009) | | 5 mlynedd (cf. 2014) | | 3 blynedd (cf. 2016) | | 1 flwyddyn (cf. 2018) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | -9 | ↓ | -17 | ↓ | -9 | ↓ | -3 | ↓ |
| Ceredigion | -0 | ◆ | -9 | ↓ | -12 | ↓ | 1 | ◆ |
| Castell-nedd Port Talbot | 10 | ↑ | -58 | ↓ | -25 | ↓ | -7 | ↓ |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 43 | ↑ | -12 | ↓ | -1 | ◆ | -2 | ◆ |
| **Cymru** | **35** | ↑ | **18** | ↑ | **18** | ↑ | **7** | ↑ |

Ffynhonnell: Stats Wales (2019c). ◆ wedi cael ei ddefnyddio i ddynodi lle mae'r gyfradd wedi bod yn gymharol sefydlog h.y. newid net o +/-2. Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr Atodiad Data.

Fel y gwelir yn Nhabl 1, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yw'r unig ddau awdurdod o'i gymharu â'r gyfradd 10 mlynedd yn ôl (ar 31ain Mawrth 2009) lle bu gostyngiad (neu yn achos Ceredigion, mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yr un fath erbyn hyn ag yr oedd pan gymerwyd y ciplun yn 2009). Mae archwiliad o gydbwysedd y llifoedd i mewn ac allan o'r ddau awdurdod hyn yn amlygu dwy duedd allweddol:

- Mae Sir Gaerfyrddin wedi cael llai yn dechrau nag yn ymadael yn gyson ers 2013. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31ain Mawrth wedi gostwng o 270 i 185 (Ffigur A19).
- Mae Ceredigion, ac eithrio'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2018, wedi cael nifer tebyg iawn yn dechrau ac yn gadael bob blwyddyn (+/- 5) ers 2003 (Ffigur A15).

O'i gymharu â'r tueddiadau yn eu niferoedd a'u cyfraddau (Ffigurau A20 ac A16), gellir gweld yr effaith y mae hyn wedi'i chael. Yn benodol, mae Ffigur A20 yn dangos y gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyfradd y plant sy'n derbyn gofal yn Sir Gaerfyrddin. Gellir gweld tuedd debyg hefyd yn y data ar gyfer Castell-nedd Port Talbot sydd wedi gweld y gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n cychwyn a'r rhai sy'n gadael yn culhau ers 2012, gyda mwy yn gadael nag yn dechrau ers 2014 (Ffigur A24).

Fel un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru, mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Ngheredigion yn sensitif i newidiadau bach hyd yn oed ym maint y garfan. Mae Ffigur A16 yn dangos effaith cael cydbwysedd negyddol yn 2017 a 2018 ar y gyfradd leol. Er bod gan Ben-y-bont ar Ogwr garfan fwy o blant sy'n derbyn gofal, ychydig iawn o wahaniaeth sydd wedi bod yn nifer y rhai sy'n dechrau ac yn gadael yn ystod y blynyddoedd diwethaf (Ffigur A25). Mae hyn wedi trosi'n dueddiadau tebyg i'r hyn a welwyd yng Ngheredigion.

Mae Tabl 2 yn crynhoi'r tueddiadau a welwyd yn y naw awdurdod lleol a welodd y cynnydd mwyaf ym maint y carfannau dros y 5 mlynedd diwethaf. Gyda'i gilydd roeddent yn cyfrif am bron i 83% o'r cynnydd net yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

### Tabl 2: Cyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal – newid net a chyfeiriad y trywydd – Tuedd at i fyny

| | 10 mlynedd (cf. 2009) | | 5 mlynedd (cf. 2014) | | 3 blynedd (cf. 2016) | | 1 flwyddyn (cf. 2018) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 39 | ↑ | 30 | ↑ | 20 | ↑ | 11 | ↑ |
| Wrecsam | 50 | ↑ | 25 | ↑ | 29 | ↑ | 8 | ↑ |
| Bro Morgannwg | 43 | ↑ | 35 | ↑ | 31 | ↑ | 13 | ↑ |
| Caerdydd | 45 | ↑ | 36 | ↑ | 33 | ↑ | 9 | ↑ |
| Powys | 48 | ↑ | 40 | ↑ | 39 | ↑ | 12 | ↑ |
| Sir Benfro | 12 | ↑ | 14 | ↑ | 12 | ↑ | 8 | ↑ |
| Caerffili | 35 | ↑ | 44 | ↑ | 43 | ↑ | 14 | ↑ |
| Sir Fynwy | 41 | ↑ | 42 | ↑ | 25 | ↑ | 19 | ↑ |
| Torfaen | 116 | ↑ | 64 | ↑ | 75 | ↑ | 26 | ↑ |
| **Cymru** | **35** | ↑ | **18** | ↑ | **18** | ↑ | **7** | ↑ |

Ffynhonnell: Stats Wales (2019c). Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr Atodiad Data.

O edrych ar gydbwysedd y llifoedd i mewn ac allan o'r awdurdodau lleol hyn, mae'n werth nodi bod Gwynedd, Wrecsam, Bro Morgannwg a Chaerdydd wedi bod â thuedd at i fyny'n gyffredinol am gyfnod hir gyda dim ond gostyngiad achlysurol yn eu cyfraddau plant sy'n

derbyn gofal. Gwelwyd gostyngiadau mwy cyson ym Mhowys, Sir Benfro, Sir Fynwy, Caerffili a Thor-faen, yn bennaf cyn 2015 ond maent wedi gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ers hynny.

Yn benodol, gwelodd Tor-faen, sydd â'r gyfradd uchaf o blant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol ledled Cymru, 4 blynedd (rhwng 1af Ebrill 2012 a 31ain Mawrth 2016) lle'r oedd mwy yn gadael nag yn dechrau. Dim ond yn fwy diweddar y mae'r duedd hon wedi gwrthdroi, gan gyfateb â chynnydd sylweddol yn ei chyfradd (Ffigurau A39 a A40)

Yn ogystal â'r naw awdurdod lleol hyn (Tabl 2), mae pedwar awdurdod lleol arall – Abertawe, Casnewydd, Merthyr Tudful a Sir y Fflint, sydd, ar sail y ffordd y mae'r data wedi'i grynhoi, yn ymddangos fel pe baent wedi profi tuedd net at i fyny yn y tymor hwy (Tabl 3). Fodd bynnag, mae archwiliad o'u siartiau'n awgrymu darlun mwy cymhleth gyda'r cynnydd net yn cuddio amrywiadau o un flwyddyn i'r llall ar draws y cyfnod 10 mlynedd.

### Tabl 3: Cyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal – newid net a chyfeiriad y trywydd – Mae'r duedd at i fyny yn cuddio amrywiadau o un flwyddyn i'r llall

| | 10 mlynedd (cf. 2009) | | 5 mlynedd (cf. 2014) | | 3 blynedd (cf. 2016) | | 1 flwyddyn (cf. 2018) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 24 | ↑ | 3 | ↑ | 9 | ↑ | 7 | ↑ |
| Casnewydd | 19 | ↑ | 20 | ↑ | 19 | ↑ | 12 | ↑ |
| Merthyr Tudful | 29 | ↑ | 15 | ↑ | 42 | ↑ | 32 | ↑ |
| Sir y Fflint | 30 | ↑ | 8 | ↑ | 9 | ↑ | 6 | ↑ |
| **Cymru** | **35** | ↑ | **18** | ↑ | **18** | ↑ | **7** | ↑ |

Ffynhonnell: Stats Wales (2019c). Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr Atodiad Data.

Fel un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru, roedd gan Abertawe lawer mwy o nifer yn dechrau na'r nifer a oedd yn gadael yn 2010. Ers hynny, mae'r cydbwysedd rhwng y mewn-lif a'r all-lif wedi amrywio bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau wedi bod yn llai sylweddol gyda chyfnod o 4 blynedd pan oedd mwy yn gadael nag yn dechrau. Mae hyn wedi helpu i ostwng cyfradd yr awdurdod lleol o uchafswm o 125 am bob 10,000 ar 31ain Mawrth 2013. Er bod y gyfradd wedi bod yn cynyddu ers 2017 (pan oedd yn 102 am bob 10,000), nid yw wedi dychwelyd i'r lefel hon (Ffigurau A21 ac A22).

Bu Casnewydd yn cynnal cydbwysedd gweddol niwtral rhwng 1af Ebrill 2006 a 31ain Mawrth 2017 a oedd wedi bod yn cyfrannu at ostyngiad graddol yn y gyfradd o 2007 ymlaen. Fodd bynnag, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae mwy wedi dechrau nag ymadael sydd wedi troi'n gynnydd yn eu cyfradd sydd bellach yn cyfateb i 19 o blant ychwanegol yn derbyn gofal am bob 10,000 o'i gymharu â 10 mlynedd yn ôl (Ffigurau A43 ac A44).

Mae Merthyr Tudful hefyd wedi gweld cynnydd yn ei gyfradd ers 2016 ar ôl gweld gostyngiad blaenorol o 153 ar 31ain Mawrth 2012 – yn nodedig rhwng 1af Ebrill 2012 a 31ain Mawrth 2016, roedd mwy a mwy yn gadael o'i gymharu â'r nifer a oedd yn dechrau, a oedd wedi cyfrannu at y gyfradd is hon. Y gyfradd ar 31ain Mawrth 2019 oedd 155 am bob 10,000 (Ffigurau A33 ac A34).

Fel un o'r awdurdodau gyda chyfradd is o blant yn derbyn gofal, bu gan Sir y Fflint gydbwysedd gweddol niwtral am gyfnod maith. Fodd bynnag, ers 2016 mae mwy wedi dechrau nag sydd wedi ymadael, a gyfrannodd at gynnydd o 6 o blant ychwanegol am bob 10,000 ar 31ain Mawrth 2019 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ni fyddai'r rhediad byr hwn o niferoedd cymharol isel wedi cael cymaint o effaith mewn awdurdod lleol gyda chyfradd uwch (Ffigurau A9 ac A10).

Crynhoir gweddill yr awdurdodau lleol yn Nhabl 4. Yr hyn sy'n arbennig o nodedig am y rhain yw eu bod wedi sicrhau cydbwysedd mwy niwtral yn ddiweddar rhwng eu mewn-lif a'u hall-lif, sydd wedi arwain at wrthdroi'r duedd flaenorol at i fyny. Yn achos Blaenau Gwent, arweiniodd hyn at ostyngiad nodedig yn y gyfradd ar 31ain Mawrth 2019 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Tabl 4: Cyfraddau awdurdodau lleol o blant sy'n derbyn gofal – newid net a chyfeiriad y trywydd – Gwrthdroi diweddar ar duedd at i fyny

| | 10 mlynedd (cf. 2009) | | 5 mlynedd (cf. 2014) | | 3 blynedd (cf. 2016) | | 1 flynedd (cf. 2018) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 79 | ↑ | 62 | ↑ | 24 | ↑ | -9 | ↓ |
| Ynys Môn | 58 | ↑ | 53 | ↑ | 29 | ↑ | 2 | ◆ |
| Conwy | 26 | ↑ | 22 | ↑ | 19 | ↑ | -1 | ◆ |
| Rhondda Cynon Taf | 49 | ↑ | 5 | ↑ | 10 | ↑ | -1 | ◆ |
| Sir Ddinbych | 15 | ↑ | 1 | ◆ | -4 | ↓ | -0 | ◆ |
| **Cymru** | **35** | ↑ | **18** | ↑ | **18** | ↑ | **7** | ↑ |

Ffynhonnell: Stats Wales (2019c). ◆ wedi cael ei ddefnyddio i ddynodi lle mae'r gyfradd wedi bod yn gymharol sefydlog h.y. newid net o +/-2. Mae'r data sylfaenol wedi'i grynhoi yn yr Atodiad Data.

Bu gan Flaenau Gwent un o'r cyfraddau uchaf o blant yn derbyn gofal yng Nghymru (er yn is na Thor-faen). Mae Ffigurau A37 ac A38 yn dangos sut y gall cael cydbwysedd cadarnhaol mawr (h.y. mwy yn dechrau nag yn gadael) arwain at grŵp craidd o blant sy'n derbyn gofal ac sy'n aros yn y system i'r flwyddyn nesaf. O ganlyniad, mae'r gostyngiad y byddech yn disgwyl ei weld o ganlyniad i gulhau'r bwlch rhwng y mewn-lif a'r all-lif yn cymryd peth amser i'w adlewyrchu yng nghyfradd yr awdurdod lleol.

Mae Ynys Môn (Ffigur A1) a Chonwy (Ffigur A5) wedi gweld y bwlch yn cau'n ddiweddar rhwng nifer y rhai sy'n dechrau ac yn gadael ar ôl nifer o flynyddoedd o fod â chydbwysedd cadarnhaol – ar gyfer Ynys Môn mae nifer y rhai sy'n dechrau o'i gymharu â'r nifer sy'n gadael wedi cynyddu bob blwyddyn rhwng 2013 a 2017, ac mae wedi bod yn fwy cytbwys ers hynny. Yng Nghonwy, mae tuedd debyg tan y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2018 pan oedd 35 yn fwy yn dechrau nag yn gadael.

Yn Rhondda Cynon Taf (Ffigur A31), gwelwyd llawer mwy yn dechrau nag yn gadael y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2017 ar ôl dwy flynedd pan oedd y niferoedd yn weddol gyfartal. Ers hynny, mae wedi dychwelyd i sefyllfa fwy cytbwys.

Mae Sir Ddinbych yn rhywfaint o allanolyn gan fod ei chyfradd o blant sy'n derbyn gofal wedi aros yn gymharol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn wedi deillio o fod wedi cynnal cydbwysedd gweddol niwtral rhwng y mewn-lif a'r all-lif ers 2011 (Ffigurau A7 ac A8).

## A fu newidiadau yn y ‘dulliau’ o adael gofal?

Mae’r adran ganlynol yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata a gyhoeddwyd gan Stats Cymru. Er bod hyn yn rhoi gwybodaeth am y rheswm pam y daeth y bennod i ben, nid yw’n darparu unrhyw ddata ychwanegol am nodweddion na statws cyfreithiol y plentyn. Mae gwybodaeth atodol gyfyngedig wedi cael ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn ar gael ar gyfer pob math o adael ac felly nid yw’n bosibl cymharu, er enghraifft, proffil oedran y rhai sy’n gadael o ganlyniad i SGO yn hytrach na’r rhai sy’n symud i fyw’n annibynnol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae’r data ar ymadawiadau’n ymwneud â phenodau a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth, ac eithrio’r rhai a ddaeth i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu’r diwrnod canlynol. O ystyried y niferoedd cymharol fach dan sylw, bu’n rhaid i Lywodraeth Cymru atal rhywfaint o ddata ar lefel awdurdodau lleol.

### Tueddiadau yn y niferoedd ailuno

Er mai ailuno â’r teulu yw’r rheswm mwyaf cyffredin dros i bennod o ofal ddod i ben, gan gyfrif am 34% o’r holl ymadawiadau yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019 (580 allan o 1,690 yn gadael), bu gostyngiad cyson yn nifer y rhai sy’n dychwelyd i fyw gyda rhieni, perthnasau neu eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant ers 2015 (yn cyfateb i ostyngiad o 30%) (Ffigur 8). Mae hyn yn digwydd ar gyfradd gyflymach na’r gostyngiad yn nifer yr ymadawiadau (mae’r rhain wedi gostwng 22% dros yr un cyfnod).

**Ffigur 8: Pennod yn dod i ben pan fydd y plentyn yn dychwelyd i fyw gyda theulu**




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019e)

Fel y gwelir yn Ffigur 8, roedd y niferoedd a oedd yn cael eu hailuno â theulu yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019 yn is nag mewn unrhyw flwyddyn er 2003 (Stats Cymru, 2019e). Fodd bynnag, ceir amrywiaeth yng Nghymru, gyda'r awdurdodau lleol hynny'n gyffredinol sydd â'r carfannau mwyaf o blant yn derbyn gofal hefyd â'r niferoedd uchaf o rai'n dychwelyd i fyw gyda rhieni.

Er mwyn deall yr amrywiaeth o fewn Cymru, mae dau fesur wedi cael eu hystyried:

- Cyfran yr holl ymadawiadau mewn blwyddyn benodol sy'n arwain at ailuno
- Cyfran yr awdurdod lleol o gyfanswm nifer yr ymadawiadau oherwydd ailuno

Mae'r mesurau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 5 ynghyd â nifer yr ymadawiadau o ganlyniad i ailuno.

O ran cyfanswm yr ymadawiadau oherwydd ailuno, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd sydd â'r nifer uchaf ac felly'r gyfran fwyaf o blant sy'n dychwelyd i fyw gyda'u rhieni. Er bod un o bob deg plentyn sy'n dychwelyd i fyw gyda'u rhieni'n derbyn gofal gan Rhondda Cynon Taf, mae gwir nifer yr ymadawiadau wedi haneru o'i gymharu â 2015. Mae'r nifer sy'n cael eu hailuno â rhieni o Gaerdydd wedi gostwng 44% dros yr un cyfnod.

Yn y pegwn arall, dim ond tua 5 o blant[5] oedd gan Sir Fynwy a Cheredigion a ddychwelodd i fyw gyda'u rhieni yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2019, gyda maint bach eu carfan o blant yn derbyn gofal yn chwarae rhan yn hyn.

Ar sail cyfran yr holl ymadawiadau a arweiniodd at ailuno yn y blynyddoedd diwethaf, mae'n ymddangos bod yr awdurdodau lleol llai, mwy gwledig fel Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi gwneud mwy o ddefnydd o ailuno na rhai o'r awdurdodau mwy trefol, mwy. Fodd bynnag, mae'n anodd dod i gasgliadau pendant am y duedd hon heb wybod mwy am amgylchiadau unigol pob plentyn/teulu gan y bydd angen gwneud penderfyniadau fesul achos i adlewyrchu buddiannau gorau'r plentyn.

[5] Mae'r ffigurau sydd wedi'u cyhoeddi wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf ac maen nhw'n destun ataliad. Mae niferoedd bach iawn yn cael eu dynodi gan * yn y tablau a gyhoeddwyd a gallent fod yn gysylltiedig â 0, 1 neu 2 o blant yn y categori penodol hwnnw.

## Tabl 5: Ymadawiadau oherwydd hailuno yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol

| | Nifer yr Ymadawiadau Oherwydd Ailuno | | | | | | % o Ymadawiadau Oherwydd Ailuno | | | | | % Cyfran o Gyfanswm Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | Cyfartaledd | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
| Ynys Môn | 10 | 15 | 20 | 10 | 15 | 14 | 40 | 60 | 57 | 50 | 43 | 1.2 | 2.0 | 2.8 | 1.7 | 2.6 |
| Gwynedd | 20 | 20 | 20 | 15 | 15 | 18 | 36 | 40 | 40 | 38 | 38 | 2.4 | 2.7 | 2.8 | 2.5 | 2.6 |
| Conwy | 20 | 20 | 5 | 15 | 15 | 15 | 31 | 36 | 13 | 38 | 25 | 2.4 | 2.7 | 0.7 | 2.5 | 2.6 |
| Sir Ddinbych | 20 | 25 | 25 | 10 | 15 | 19 | 36 | 36 | 42 | 29 | 38 | 2.4 | 3.3 | 3.5 | 1.7 | 2.6 |
| Sir y Fflint | 15 | 30 | 20 | 20 | 15 | 20 | 30 | 40 | 33 | 33 | 27 | 1.8 | 4.0 | 2.8 | 3.3 | 2.6 |
| Wrecsam | 40 | 15 | 30 | 40 | 30 | 31 | 44 | 38 | 40 | 57 | 46 | 4.8 | 2.0 | 4.2 | 6.7 | 5.2 |
| Powys | 20 | 15 | 15 | 15 | 10 | 15 | 40 | 38 | 30 | 33 | 22 | 2.4 | 2.0 | 2.1 | 2.5 | 1.7 |
| Ceredigion | 15 | 15 | 10 | 20 | 5 | 13 | 60 | 50 | 40 | 50 | 33 | 1.8 | 2.0 | 1.4 | 3.3 | 0.9 |
| Sir Benfro | 30 | 30 | 45 | 35 | 30 | 34 | 40 | 50 | 60 | 50 | 46 | 3.6 | 4.0 | 6.3 | 5.8 | 5.2 |
| Sir Gaerfyrddin | 50 | 55 | 40 | 45 | 40 | 46 | 53 | 50 | 47 | 56 | 47 | 6.1 | 7.3 | 5.6 | 7.5 | 6.9 |
| Abertawe | 75 | 60 | 85 | 55 | 45 | 64 | 36 | 31 | 43 | 32 | 30 | 9.1 | 8.0 | 11.8 | 9.2 | 7.8 |
| Castell-nedd Port Talbot | 20 | 25 | 40 | 10 | 25 | 24 | 17 | 20 | 31 | 11 | 25 | 2.4 | 3.3 | 5.6 | 1.7 | 4.3 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 65 | 40 | 30 | 25 | 35 | 39 | 46 | 33 | 35 | 33 | 39 | 7.9 | 5.3 | 4.2 | 4.2 | 6.0 |
| Bro Morgannwg | 15 | 10 | 10 | 10 | 10 | 11 | 25 | 14 | 20 | 22 | 29 | 1.8 | 1.3 | 1.4 | 1.7 | 1.7 |
| Caerdydd | 90 | 115 | 80 | 60 | 50 | 79 | 33 | 40 | 31 | 29 | 26 | 10.9 | 15.3 | 11.1 | 10.0 | 8.6 |
| Rhondda Cynon Taf | 120 | 95 | 95 | 65 | 60 | 87 | 50 | 44 | 51 | 39 | 38 | 14.5 | 12.7 | 13.2 | 10.8 | 10.3 |
| Merthyr Tudful | 25 | 15 | 15 | 10 | 20 | 17 | 33 | 27 | 38 | 20 | 44 | 3.0 | 2.0 | 2.1 | 1.7 | 3.4 |
| Caerffili | 50 | 55 | 40 | 45 | 45 | 47 | 45 | 46 | 40 | 36 | 41 | 6.1 | 7.3 | 5.6 | 7.5 | 7.8 |
| Blaenau Gwent | 10 | 15 | 25 | 15 | 25 | 18 | 22 | 33 | 36 | 30 | 38 | 1.2 | 2.0 | 3.5 | 2.5 | 4.3 |
| Torfaen | 55 | 30 | 30 | 35 | 45 | 39 | 46 | 32 | 43 | 39 | 47 | 6.7 | 4.0 | 4.2 | 5.8 | 7.8 |
| Sir Fynwy | 10 | 10 | 20 | 25 | 5 | 14 | 33 | 33 | 44 | 56 | 20 | 1.2 | 1.3 | 2.8 | 4.2 | 0.9 |
| Casnewydd | 55 | 35 | 30 | 35 | 25 | 36 | 33 | 28 | 25 | 30 | 23 | 6.7 | 4.7 | 4.2 | 5.8 | 4.3 |
| **Cymru** | **825** | **750** | **720** | **600** | **580** | **695** | **38** | **37** | **38** | **35** | **34** | **100** | **100** | **100** | **100** | **100** |

Ffynhonnell: Stats Cymru (2019e). Sylwer: Mae'r data a gyhoeddwyd ar Stats Cymru wedi'i dalgrynnu i'r 5 agosaf felly dylid bod yn ofalus wrth drin y ffigurau cyfartalog (cymedr). Mae'r ffigurau wedi'u cynnwys yma er mwyn gallu cymharu â'r rhai sy'n ymwneud â mabwysiadu (Tabl 6). Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd ffigurau colofn yn dod i 100%.

## Tueddiadau yn y niferoedd sy'n cael eu mabwysiadu

Yn yr un modd ag ailuno, mae'r niferoedd sy'n gadael gofal o ganlyniad i fabwysiadu hefyd yn gostwng er bod y prif rif yn uwch nag yr oedd yn 2003 (Ffigur 9). Ar ôl cyrraedd anterth o 285 yn 2015, mae'r niferoedd wedi gostwng ers hynny er eu bod wedi bod yr un fath yn fras dros y 3 blynedd diwethaf (Stats Cymru, 2019e).

### Ffigur 9: Penodau'n dod i ben o ganlyniad i fabwysiadu




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019e). Sylwer: Ni all y llys hepgor caniatâd rhiant neu warcheidwad oni bai ei fod yn fodlon (a) na ellir dod o hyd i'r rhiant neu'r gwarcheidwad neu nad oes ganddo alluedd (o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i roi cydsyniad neu (b) bod lles y plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r caniatâd gael ei hepgor.

Oherwydd niferoedd bach, nid yw dadansoddiad o nifer y penodau sy'n dod i ben oherwydd mabwysiadu ar gael ar gyfer pob awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae Tabl 6 yn crynhoi nifer cyfartalog y plant sydd wedi cael eu mabwysiadu bob blwyddyn rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2019. Yn fras, mae'r rheini sydd â charfannau mwy o blant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o fod â niferoedd uwch yn cael eu mabwysiadu tra bo'r rheini sydd â charfannau llai hefyd â llai yn cael eu mabwysiadu.

### Tabl 6: Cyfartaledd nifer y rhai sy'n cael eu mabwysiadu y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol (5 mlynedd)

| | Cyfartaledd |
|---|---|
| Ynys Môn | 5 |
| Gwynedd | 7 |
| Conwy | 8 |
| Sir Ddinbych | 10 |
| Sir y Fflint | 9 |
| Wrecsam | 9 |
| Powys | 7 |
| Ceredigion | 5 |
| Sir Benfro | 6 |
| Sir Gaerfyrddin | 13 |
| Abertawe | 33 |
| Castell-nedd Port Talbot | 28 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 25 |
| Bro Morgannwg | 9 |
| Caerdydd | 35 |
| Rhondda Cynon Taf | 36 |
| Merthyr Tudful | 7 |
| Caerffili | 13 |
| Blaenau Gwent | 13 |
| Torfaen | 19 |
| Sir Fynwy | 6 |
| Casnewydd | 28 |
| Cymru | 331 |

Ffynhonnell: Casgliad da a plant yn derbyn gofal a fabwysiadwyd (ADF1), Welsh Government (2020a). . Mae'r ffigurau'n ymwneud â'r cyfnod 5 mlynedd rhwng 1af Ebrill 2014 a 31ain Mawrth 2019.

Yn wahanol i'r dulliau eraill o adael gofal, mae data am nodweddion plant a fabwysiadwyd o ofal a'r rheini a'u mabwysiadodd yn cael eu cyhoeddi gan Ystadegau Cymru a Llywodraeth Cymru fel rhan o'u hadroddiadau ar *Ystadegau Arbrofol: Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau Lleol* (SFR 106/2019)[6].

Yr oedd y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal a gafodd eu mabwysiadu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31ain Mawrth 2019 rhwng 1 a 4 oed (250 allan o 310), gyda 50 arall yn cael eu mabwysiadu a oedd rhwng 5 a 9 oed. Cafodd ychydig mwy o ferched na bechgyn eu mabwysiadu (165 o'i gymharu â 145 o fechgyn). Roedd dros ddwy ran o dair (69%, 215) o blant wedi cael eu rhoi mewn gofal cyn eu pen-blwydd cyntaf, gyda 145 (67%) o'r rhain mewn gofal am rhwng 1 a 2 flynedd cyn cael eu mabwysiadu.

Ar draws pob oedran, roedd 55% o'r plant a oedd yn derbyn gofal a aeth ymlaen i gael eu mabwysiadu mewn gofal am 1 i 2 flynedd cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei roi. Roedd

[6] Gellir ei lwytho i lawr oddi ar wefan Llywodraeth Cymru: **https://gov.wales/children-looked-after-local-authorities-april-2018-march-2019**. Mae tablau atodol ar gael ar Stats Cymru: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/Adoptions**

30% mewn gofal am 2 i 3 blynedd tra roedd 6% mewn gofal am 3 i 4 blynedd. Roedd oddeutu 5% o'r rheini a fabwysiadwyd yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019 mewn gofal am 4 i 5 mlynedd cyn cael eu mabwysiadu.

Cafodd y mwyafrif o blant eu mabwysiadu gan gyplau (92%, 285). Fodd bynnag, mabwysiadwyd nifer fach gan fabwysiadwyr sengl. Pan ddigwyddodd hyn, roedd y mabwysiadwr sengl fel arfer yn fenywaidd. Yn nodweddiadol, ni chafodd plant eu mabwysiadu gan eu gofalwr maeth – dim ond mewn 25 allan o 310 o achosion yn 2019 (8%) y digwyddodd hyn.

### Tueddiadau yn y niferoedd sy'n destun gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig (SGO)

Bwriedir i orchmynion gwarcheidiaeth arbennig fod yn drefniant parhaol sy'n darparu lleoliad diogel dan y gyfraith, tra rhoddir cyfrifoldebau rhiant i warcheidwad arbennig y plentyn, nid yw'n ofynnol iddynt dorri'r berthynas gyfreithiol gyda'u rhieni naturiol.

### Ffigur 10: Penodau'n dod i ben o ganlyniad i orchmynion gwarcheidiaeth arbennig




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019e)

Yn yr un modd â mabwysiadu ac ailuno, mae nifer yr achosion sy'n dod i ben o ganlyniad i SGO wedi bod yn gostwng hefyd – ers 2015 bu gostyngiad o 30%. Mae hyn hefyd yn gyflymach na'r gyfradd y mae nifer cyffredinol yr ymadawiadau wedi gostwng dros yr un cyfnod.

**Tueddiadau yn y niferoedd sy'n peidio â derbyn gofal ac sy'n symud i drefniadau byw'n annibynnol**

Mae trefniadau byw'n annibynnol wedi'u rhannu'n fras rhwng:

- Llety cefnogol sy'n darparu trefniadau cymorth/cyngor ffurfiol (e.e. y rhan fwyaf o hosteli, YMCA, cynteddau a phrosiectau i bobl ifanc sy'n gadael gofal), a
- Wedi symud i drefniant byw'n annibynnol a ddim yn derbyn gofal mwyach: llety sy'n darparu dim trefniadau cymorth/cyngor ffurfiol (e.e. Gwely a Brecwast, fflat un ystafell, ei fflat ei hun, byw gyda ffrindiau)

Mae'r plant hynny sy'n byw'n annibynnol yn tueddu i fod yn hŷn. Ar 31ain Mawrth 2019, roedd tua 125 o blant yn derbyn gofal a oedd yn byw'n annibynnol heb unrhyw drefniadau cymorth na chyngor ffurfiol. O'r rhain roedd 80% (100) yn 17 oed, roedd y gweddill yn 16 oed (Llywodraeth Cymru, 2020b).

**Ffigur 11: Penodau'n dod i ben wrth symud i fyw'n annibynnol**




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019e)

Fel y gwelir o Ffigur 11, roedd y niferoedd a oedd yn gadael gofal i symud i fyw'n annibynnol wedi bod yn cynyddu tan 2015. Ers hynny, mae'r nifer wedi bod yn gostwng er bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion a ddaeth i ben am y rheswm hwn yn y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019, gan ddychwelyd at y duedd gyffredinol a welwyd cyn 2009.

# Casgliad

Er bod meddwl am y garfan plant sy'n derbyn gofal fel system lle mae llif i mewn ac allan yn gallu bod yn or-syml, mae'n dangos nad yw lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal yn ddigonol os ydym yn dymuno lleihau nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae angen canolbwyntio hefyd ar blant a phobl ifanc yn gadael y system yn ddiogel – er enghraifft, drwy drefniadau parhaol fel mabwysiadu neu SGO, neu drwy ailuno'r teulu'n llwyddiannus. Lle bo hynny er budd gorau'r plentyn unigol, gallai hyn hefyd olygu symud i drefniadau byw'n annibynnol gyda chefnogaeth nes eu bod yn cyrraedd 18 oed.




Gan fod y briff hwn yn dibynnu ar ddata sydd ar gael yn gyhoeddus, nid yw'n bosibl cael syniad o broffil oedran y rheini sy'n mynd i ofal, am ba hyd y maent yn aros mewn gofal na pha gyfran o'r dechreuadau sy'n berthnasol i rai sy'n dychwelyd i ofal. Yn yr un modd, ychydig iawn o wybodaeth a gyhoeddwyd sydd ar gael ynghylch nodweddion y rhai sy'n gadael gofal ac eithrio o ganlyniad i fabwysiadu.

Hyd yma, bu Elliott (2017) yn un o'r ychydig ymchwilwyr i ddefnyddio data lefel unigol o bob cwr o Gymru i archwilio'r tueddiadau o ran mynediad ac ailfynediad i ofal. Fodd bynnag, mae creu Arsyllfa Cyfiawnder Teulu Nuffield yn ddiweddar; caffael data Cafcass Cymru gan SAIL Databank, a'r gofyniad i ddarparu cofnodion ar lefel unigol ar gyfer y cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a'r cyfrifiad plant sy'n derbyn gofal a chymorth, yn cyflwyno cyfleoedd newydd. Erbyn hyn, gall ymchwilwyr cymeradwy adeiladu ar waith Elliott (2017) i wella ein dealltwriaeth o sut mae'r system gofal yn gweithio a lle gall fod mannau dan bwysau.

Er y gallai fod lle i gynyddu nifer y mabwysiadwyr a chynyddu'r defnydd o SGO, ceir cyfleoedd hefyd o ran ailuno (Moultrie and Bilous, 2020). NododdElliott (2017) bod tua un o bob pedwar o'r garfan rhwng 2008 a 2014 wedi dychwelyd i'r system h.y. wedi mynd yn ôl i'r

system gofal ar ôl cyfnod o beidio â derbyn gofal. Roedd yr astudiaeth hon yn tynnu sylw nid yn unig at y ffaith bod oed a statws cyfreithiol ar ddechrau pennod gyntaf y plentyn o ofal yn benderfynydd arwyddocaol o ran y tebygolrwydd o ddychwelyd am gyfnod pellach o ofal, ond felly hefyd yr oedd am faint o hyd yr oedd y plentyn yn derbyn gofal. Cododd canfyddiadau Elliott y cwestiwn a oedd teuluoedd yn cael digon o amser a chefnogaeth i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol a oedd wedi arwain at roi'r plentyn mewn gofal, yn enwedig o'i gymryd yng nghyd-destun y prif reswm a gofnodwyd dros symud y plentyn o gartref y teulu. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith i ddeall pam nad yw ailuno bob amser yn llwyddiannus ac felly beth y gellir ei wneud i leihau nifer yr achosion o blant sy'n mynd yn ôl i ofal.

Nes gellir tipio'r cydbwysedd fel bod mwy o blant yn gadael nag sy'n dechrau, bydd grŵp craidd yn aros mewn gofal nes byddant yn 18 oed ac yn heneiddio allan o'r system. Fel y nodwyd yn Hodges and Bristow (2019), mae'r garfan 16-17 oed yn tyfu'n gyflymach na'r holl grwpiau oedran eraill, o ganlyniad i'r anhawster o adael y system.

# Crynodebau Awdurdodau Lleol

Paratowyd y crynodebau canlynol gan ddefnyddio data cyhoeddedig ar nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal a nifer y plant sy'n gadael. Nid ydynt yn ystyried lle mae ail-fynediad i ofal yn dilyn cyfnod, o bosibl lle maent wedi dychwelyd i fyw gyda'r teulu neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant. Mae'r niferoedd i gyd wedi cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf.

Er bod y rhesymau dros benodau'n dod i ben yn cael eu cyhoeddi, mewn rhai achosion maent yn cael eu hatal ac felly nid ydynt wedi cael eu hatgynhyrchu yma gan nad yw'n bosibl cyflwyno'r tueddiadau ar gyfer pob awdurdod lleol.


| Cyfeirnod Ffigur | Ardal | Tudalen |
|---|---|---|
| A1 ac A2 | Ynys Môn | 27 |
| A3 ac A4 | Gwynedd | 28 |
| A5 ac A6 | Conwy | 29 |
| A7 ac A8 | Sir Ddinbych | 30 |
| A9 ac A10 | Sir y Fflint | 31 |
| A11 ac A12 | Wrecsam | 32 |
| A13 ac A14 | Powys | 33 |
| A15 ac A16 | Ceredigion | 34 |
| A17 ac A18 | Sir Benfro | 35 |
| A19 ac A20 | Sir Gaerfyrddin | 36 |
| A21 ac A22 | Abertawe | 37 |
| A23 ac A24 | Castell-nedd Port Talbot | 38 |
| A25 ac A26 | Pen-y-bont ar Ogwr | 39 |
| A27 ac A28 | Bro Morgannwg | 40 |
| A29 ac A30 | Caerdydd | 41 |
| A31 ac A32 | Rhondda Cynon Taf | 42 |
| A33 ac A34 | Merthyr Tudful | 43 |
| A35 ac A36 | Caerffili | 44 |
| A37 ac A38 | Blaenau Gwent | 45 |
| A39 ac A40 | Torfaen | 46 |
| A41 ac A42 | Sir Fynwy | 47 |
| A43 ac A44 | Casnewydd | 48 |

## Ffigur A1: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Ynys Môn




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A2: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Ynys Môn




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

### Ffigur A3: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Gwynedd




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

### Ffigur A4: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Gwynedd




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A5: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Conwy




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A6: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Conwy




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A7: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Sir Ddinbych




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A8: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Sir Ddinbych




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A9: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Sir y Fflint




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A10: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Sir y Fflint




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A11: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Wrecsam




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A12: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Wrecsam




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A13: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Powys




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A14: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Powys




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A15: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Ceredigion




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e)

## Ffigur A16: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Ceredigion




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A17: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Sir Benfro




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A18: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Sir Benfro




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A19: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Sir Gaerfyrddin




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e)

## Ffigur A20: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Sir Gaerfyrddin




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A21: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Abertawe




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A22: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Abertawe




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A23: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Castell-nedd Port Talbot




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A24: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Castell-nedd Port Talbot




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A25: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Pen-y-bont ar Ogwr




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A26: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Pen-y-bont ar Ogwr




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A27: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Bro Morgannwg




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A28: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Bro Morgannwg




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A29: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Caerdydd




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A30: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Caerdydd




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A31: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Rhondda Cynon Taf




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A32: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Rhondda Cynon Taf




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A33: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Merthyr Tudful




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A34: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Merthyr Tudful




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A35: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Caerffili




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A36: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Caerffili




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A37: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Blaenau Gwent




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A38: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Blaenau Gwent




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A39: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Torfaen




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A40: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Torfaen




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

### Ffigur A41: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Sir Fynwy




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

### Ffigur A42: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Sir Fynwy




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

## Ffigur A43: Y cydbwysedd rhwng llifoedd i mewn ac allan o'r system gofal dros amser, Casnewydd




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d, 2019e).

## Ffigur A44: Niferoedd a chyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal, Casnewydd




Ffynhonnell: Stats Cymru (2019b, 2019c)

# Atodiad Data

## Tabl A1: Cyfradd y Plant sy'n Derbyn Gofal, yn ôl Awdurdod Lleol

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 52 | 53 | 59 | 67 | 59 | 57 | 65 | 80 | 104 | 107 | 109 |
| Gwynedd | 69 | 73 | 74 | 83 | 85 | 78 | 81 | 88 | 93 | 97 | 108 |
| Conwy | 71 | 77 | 75 | 81 | 74 | 75 | 72 | 78 | 82 | 99 | 97 |
| Sir Ddinbych | 70 | 83 | 88 | 82 | 83 | 84 | 83 | 89 | 84 | 85 | 85 |
| Sir y Fflint | 44 | 48 | 49 | 52 | 61 | 66 | 68 | 65 | 66 | 68 | 74 |
| Wrecsam | 46 | 51 | 54 | 60 | 67 | 71 | 60 | 67 | 72 | 88 | 96 |
| Powys | 51 | 55 | 64 | 67 | 59 | 59 | 54 | 60 | 63 | 87 | 99 |
| Ceredigion | 51 | 56 | 61 | 64 | 59 | 61 | 62 | 63 | 60 | 50 | 51 |
| Sir Benfro | 52 | 58 | 61 | 60 | 59 | 50 | 47 | 52 | 52 | 56 | 64 |
| Sir Gaerfyrddin | 58 | 65 | 69 | 72 | 71 | 66 | 64 | 58 | 56 | 52 | 49 |
| Abertawe | 94 | 119 | 124 | 119 | 125 | 114 | 109 | 108 | 102 | 110 | 117 |
| Castell-nedd Port Talbot | 100 | 136 | 144 | 167 | 176 | 168 | 156 | 135 | 124 | 118 | 110 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 87 | 99 | 112 | 119 | 134 | 142 | 135 | 131 | 134 | 131 | 130 |
| Bro Morgannwg | 60 | 66 | 75 | 80 | 66 | 68 | 69 | 72 | 84 | 90 | 103 |
| Caerdydd | 75 | 76 | 74 | 80 | 78 | 84 | 89 | 88 | 97 | 112 | 120 |
| Rhondda Cynon Taf | 86 | 95 | 110 | 119 | 124 | 130 | 124 | 125 | 138 | 135 | 135 |
| Merthyr Tudful | 126 | 131 | 132 | 153 | 145 | 140 | 131 | 113 | 115 | 122 | 155 |
| Caerffili | 79 | 84 | 76 | 78 | 77 | 71 | 70 | 72 | 85 | 100 | 114 |
| Blaenau Gwent | 84 | 80 | 91 | 96 | 96 | 102 | 98 | 139 | 154 | 172 | 163 |
| Torfaen | 101 | 118 | 144 | 152 | 153 | 152 | 150 | 142 | 166 | 191 | 216 |
| Sir Fynwy | 57 | 44 | 41 | 56 | 55 | 56 | 60 | 73 | 75 | 79 | 98 |
| Casnewydd | 87 | 89 | 85 | 83 | 84 | 86 | 86 | 88 | 83 | 94 | 106 |
| **Cymru** | **73** | **81** | **85** | **90** | **91** | **91** | **89** | **90** | **95** | **102** | **109** |

Ffynhonnell: Stats Cymru (2019c)

## Tabl A2: Nifer y plant yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 35 | 35 | 40 | 45 | 30 | 30 | 35 | 45 | 65 | 25 | 40 |
| Gwynedd | 50 | 45 | 35 | 55 | 55 | 45 | 60 | 65 | 60 | 50 | 65 |
| Conwy | 60 | 75 | 50 | 45 | 45 | 60 | 60 | 65 | 55 | 75 | 55 |
| Sir Ddinbych | 50 | 80 | 55 | 40 | 70 | 65 | 50 | 80 | 50 | 40 | 40 |
| Sir y Fflint | 40 | 45 | 40 | 45 | 75 | 85 | 60 | 60 | 65 | 65 | 80 |
| Wrecsam | 45 | 65 | 65 | 80 | 80 | 85 | 55 | 65 | 90 | 115 | 85 |
| Powys | 65 | 55 | 70 | 60 | 40 | 35 | 35 | 50 | 55 | 95 | 75 |
| Ceredigion | 25 | 40 | 45 | 40 | 50 | 30 | 30 | 30 | 20 | 25 | 20 |
| Sir Benfro | 45 | 65 | 80 | 60 | 65 | 40 | 65 | 70 | 80 | 75 | 85 |
| Sir Gaerfyrddin | 110 | 105 | 100 | 100 | 100 | 90 | 90 | 85 | 80 | 65 | 75 |
| Abertawe | 155 | 255 | 175 | 150 | 210 | 185 | 190 | 195 | 175 | 210 | 180 |
| Castell-nedd Port Talbot | 120 | 205 | 130 | 190 | 140 | 115 | 90 | 70 | 100 | 75 | 80 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 75 | 110 | 110 | 110 | 135 | 145 | 115 | 105 | 95 | 70 | 90 |
| Bro Morgannwg | 35 | 65 | 75 | 75 | 60 | 70 | 65 | 75 | 80 | 60 | 75 |
| Caerdydd | 165 | 185 | 190 | 250 | 220 | 285 | 315 | 280 | 335 | 320 | 260 |
| Rhondda Cynon Taf | 130 | 170 | 190 | 170 | 205 | 220 | 215 | 215 | 255 | 150 | 160 |
| Merthyr Tudful | 35 | 50 | 65 | 65 | 65 | 35 | 60 | 30 | 45 | 60 | 90 |
| Caerffili | 125 | 130 | 75 | 115 | 115 | 85 | 105 | 125 | 150 | 180 | 155 |
| Blaenau Gwent | 55 | 40 | 50 | 45 | 40 | 55 | 40 | 100 | 90 | 75 | 55 |
| Torfaen | 60 | 75 | 140 | 110 | 95 | 95 | 110 | 70 | 120 | 140 | 145 |
| Sir Fynwy | 65 | 20 | 25 | 60 | 40 | 50 | 35 | 55 | 50 | 50 | 60 |
| Casnewydd | 110 | 115 | 85 | 75 | 95 | 110 | 165 | 130 | 110 | 155 | 165 |
| **Cymru** | **1,655** | **2,025** | **1,890** | **1,975** | **2,035** | **2,010** | **2,040** | **2,065** | **2,230** | **2,170** | **2,125** |

Ffynhonnell: Stats Cymru (2019d)

## Tabl A3: Nifer y plant yn gadael gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 80 | 85 | 80 | 90 | 100 | 105 | 95 | 110 | 85 | 80 | 85 |
| Gwynedd | 25 | 35 | 40 | 35 | 55 | 30 | 25 | 30 | 25 | 40 | 15 |
| Conwy | 60 | 55 | 80 | 65 | 60 | 55 | 75 | 60 | 75 | 70 | 65 |
| Sir Ddinbych | 60 | 40 | 35 | 35 | 55 | 70 | 50 | 75 | 60 | 60 | 55 |
| Sir y Fflint | 40 | 50 | 45 | 55 | 75 | 65 | 55 | 70 | 60 | 35 | 40 |
| Wrecsam | 35 | 50 | 60 | 60 | 60 | 75 | 90 | 40 | 75 | 70 | 65 |
| Powys | 70 | 65 | 55 | 35 | 60 | 60 | 65 | 55 | 40 | 40 | 60 |
| Ceredigion | 35 | 45 | 30 | 35 | 45 | 50 | 30 | 30 | 45 | 45 | 25 |
| Sir Benfro | 65 | 45 | 45 | 50 | 70 | 35 | 50 | 40 | 50 | 45 | 45 |
| Sir Gaerfyrddin | 45 | 55 | 55 | 60 | 95 | 70 | 60 | 70 | 50 | 45 | 35 |
| Abertawe | 120 | 115 | 100 | 85 | 90 | 110 | 165 | 125 | 120 | 115 | 110 |
| Castell-nedd Port Talbot | 50 | 40 | 35 | 35 | 50 | 60 | 55 | 50 | 50 | 40 | 40 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 40 | 35 | 40 | 35 | 40 | 30 | 25 | 25 | 35 | 20 | 35 |
| Bro Morgannwg | 110 | 105 | 115 | 125 | 115 | 145 | 120 | 125 | 130 | 95 | 100 |
| Caerdydd | 95 | 125 | 110 | 105 | 120 | 115 | 110 | 120 | 100 | 125 | 110 |
| Rhondda Cynon Taf | 105 | 130 | 155 | 175 | 185 | 230 | 210 | 195 | 200 | 170 | 150 |
| Merthyr Tudful | 165 | 180 | 205 | 200 | 230 | 235 | 275 | 290 | 260 | 210 | 195 |
| Caerffili | 90 | 80 | 75 | 90 | 95 | 115 | 140 | 120 | 85 | 75 | 90 |
| Blaenau Gwent | 145 | 125 | 115 | 125 | 175 | 190 | 240 | 215 | 185 | 165 | 160 |
| Torfaen | 50 | 40 | 65 | 40 | 70 | 45 | 75 | 55 | 40 | 50 | 45 |
| Sir Fynwy | 55 | 45 | 35 | 40 | 45 | 45 | 45 | 45 | 70 | 50 | 65 |
| Casnewydd | 60 | 50 | 90 | 95 | 105 | 100 | 120 | 95 | 70 | 90 | 95 |
| **Cymru** | **1,610** | **1,600** | **1,650** | **1,665** | **1,985** | **2,035** | **2,190** | **2,020** | **1,910** | **1,730** | **1,690** |

Ffynhonnell: Stats Cymru (2019e). Mae nifer yr ymadawiadau wedi'i bennu drwy ystyried nifer y penodau sy'n dod i ben yn ystod y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth a thynnu allan y rhai lle daeth y bennod i ben gyda phennod newydd yn dechrau ar yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf.

# Cyfeirnodau


Cafcass Cymru. (2020) **Cafcass Cymru ceisiadau adran 31: Ebrill 2008 i Fai 2020.** Cyrchwyd o: **https://gov.wales/cafcass-cymru-section-31-applications**.

Elliott M. (2017) **Plant yn Derbyn Gofal yng Nghymru: Dadansoddiad o gefndiroedd plant sy'n mynd i ofal cyhoeddus.** Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

Hodges H a Bristow D. (2019) **Dadansoddiad o'r ffactorau sy'n Cyfrannu at y Cyfraddau Uchel o Ofal yng Nghymru.** Cyrchwyd o: **https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/190715-Analysis-of-Factors-Contributing-to-High-Rates-of-Care-REVISED.pdf**.

Y Weinyddiaeth Cyfiawnder. (2019) **The Public Law Applications to Orders (PLATO) Tool.** Cyrchwyd o: **https://public.tableau.com/profile/moj.analysis#!/vizhome/ChildreninFamilyJusticePublicLawApplicationstoOrdersTool_0/FrontPage**.

Moultrie K a Bilous S. (2020) **International approaches to managing placement provision for children and young people looked after.** Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Stats Cymru. (2019a) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a statws cyfreithiol.** Cyrchwyd o: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-legalstatus**.

Stats Cymru. (2019b) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol, rhyw ac oedran.** Cyrchwyd o: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31march-by-localauthority-gender-age**.

Stats Cymru. (2019c) **Plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth yn am bob 10,000 o boblogaeth dan 18 oed yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn.** Cyrchwyd o: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenlookedafterat31marchper10000population-localauthority-year**.

Stats Cymru. (2019d) **Plant yn dechrau derbyn gofal yn ystod y flwyddyn i 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r angen am ofal.** Cyrchwyd o: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/childrenstartingtobelookedafterduringyearto31march-by-localauthority-needforcare**.

Stats Cymru. (2019e) **Cyfnodau'n dod i ben i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth yn ôl awdurdod lleol a'r rheswm dros orffen.** Cyrchwyd o: **https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/episodesfinishingforchildrenlookedafterduringyearto31march-by-localauthority-reasonforfinishing**.

Stevenson L. (2017) **Do looked-after children statistics suggest a new direction in permanence and care practice?** Cyrchwyd o: **https://www.communitycare.co.uk/2017/10/04/looked-children-statistics-suggest-new-direction-permanence-care-practice/**.

Llywodraeth Cymru. (2020a) **Nifer cyfartalog o blant a fabwysiadwyd yng Nghymru, Ebrill 2014 i Fawrth 2019.** Cyrchwyd o: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-02/average-number-of-adoptions-in-wales-by-local-authority-april-2014-to-march-2019.ods**.

Llywodraeth Cymru. (2020b) **Nifer y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sy'n byw'n annibynnol (e.e. mewn fflat neu lety gyda neu heb staff cymorth ffurfiol, neu mewn fflat, gwely a brecwast neu gyda ffrindiau, yn ôl Oed, 2003 i 2019.** Cyrchwyd o: **https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-06/looked-after-children-living-independently-by-age-at-31-march-2003-to-2019.ods**

## Manylion yr Awduron

Mae **Dr Helen Hodges** yn Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Dan Bristow**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
+44 (0) 29 2087 5345
info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru